Jane Hutt, AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

21 Hydref 2020

Annwyl Jane

Diolch yn fawr am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 12 Hydref. Gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch ynghylch rhai materion nad oedd amser i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau**

Un o'r materion a drafodwyd gennym oedd eich ymgysylltiad â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghylch effeithiau sylweddol y pandemig ar bobl hŷn o ran cydraddoldeb a hawliau dynol. Er ein bod yn cydnabod mai'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn bennaf yn gyfrifol am y prif agweddau polisi ar gefnogi pobl hŷn yn ystod y pandemig, mynegwyd pryderon sylweddol ynghylch yr effaith ar hawliau dynol pobl hŷn. Codwyd y mater hwn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Age Cymru a grwpiau eraill o randdeiliaid yn ystod ein gwaith yn gynharach eleni, a gwnaethom bwysleisio'r mater yn ein hadroddiad diweddar ar y pandemig ac anghydraddoldeb.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Age Cymru ac eraill nad yw 'Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau' yn trafod y rôl y gallai pobl hŷn ei chwarae yn y broses ail-greu. Nid oedd yn glir yn eich ymatebion i'r Pwyllgor ai amryfusedd oedd hyn neu'r ffaith nad oedd cylch gorchwyl yr adroddiad yn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

cynnwys y mater hwn. A allwch gadarnhau mai amryfusedd oedd hyn? Os felly, sut fyddwch yn ei gywiro?

Mae gohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi dod i law ers ein sesiwn dystiolaeth, ac mae'r ohebiaeth hon wedi'i hatodi.

**Dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus**

Gwnaethom hefyd drafod effaith dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, yn ogystal â phryderon nad yw pob sefydliad yn cadw at y dyletswyddau hyn. Wrth ymateb i'n cwestiynau, gwnaethoch sôn am bwysigrwydd mynd y tu hwnt i ymarfer 'ticio blwch'. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cadw at y dyletswyddau? (Rydym yn cydnabod mai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n gyfrifol am orfodi'r dyletswyddau). Sut ydych yn sicrhau bod uwch reolwyr ac arweinwyr cyrff cyhoeddus yn deall y ddyletswydd ac yn sicrhau cydymffurfiad llawn ar draws eu sefydliadau?

Deallwn fod y pandemig wedi arwain at ohirio'r adolygiad o ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a bod hyn y tu hwnt i reolaeth y Llywodraeth. Fodd bynnag, a ydych yn gwybod pryd y disgwylir i'r adolygiad pwysig hwn gael ei gwblhau?

**Cyllid cynaliadwy ar gyfer y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a Thrais Rhywiol**

Yn ystod y cyfarfod, cafwyd ymrwymiad gennych i nodi dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith o lunio model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector hwn. Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn pryderu am y mater hwn ers cryn amser. A fyddech cystal â chadarnhau pryd y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau?

Yn gywir

John

John Griffiths

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.